CYNGOR CYMUNED PENNAL

**Cofnodion o Gyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Pennal a gynhaliwyd Nos Wener yr 17eg o Fai 2024 am 7.30yh yn y Ganolfan Pennal.**

Presennol; Rhys Parry, James Brunton, William Rees, Ken Griffiths, Aled Rees, Meirion Roberts, Dewi Owen (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd y Cyng Rhys Parry

   Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

   Derbyniwyd adrdoddiad blynyddol gan y Cadeirydd am weithgarwch a'r hyn a gyflawnwyd gan y Cyngor yn ystod 2023-24. Roedd y gwaith wedi parhau o ddefnyddio arian trethdalwyr yn gyfrifol ac effeithiol. Roedd y fynwent wedi ei chadw yn daclus, a llawer o gymorth wedi ei roi I faterion yr hen fynwent. Sichawyd biniau baw cwn yn y pentref yn dilyn cyfarfod gyda Cyngor Gwynedd, ac hefyd trefnwyd bod y diffirillators yn cael eu hadnewyddu yn Pennal a Cwrt. Datblygwyd wefan y Cyngor, gyda'r holl bolisiau a ddilynnir gan y Cyngor Cymuned wedi eu dangos yn daclus. Cyfranwyd I achosion lleol, gan gynnwys y Ganolfan. Sicrhawyd mainc newydd yn Cwrt, ac ymatebwyd ar faterion Priffyrdd yn gyffredinol, gan gynnwys gwaith y ffordd a'r bont newydd yn Machynlleth. Hefyd gofalwyd am y toiledau yn y pentref.
   Roedd y Cyngor wedi sicrhau gwasanaeth Clerc newydd, a diolchwyd yn fawr iawn I Huw am ei waith.
   Diolchwyd I'r holl Gynghorwyr am eu gwaith a'u cydeithrediad yn ystod y flwyddyn.

2. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed o Fawrth 2024 ar gynnig Cyng Ken Griffiths a'i eilio gan Cyng William Rees.

4. **Materion yn codi.**
   a) **Materion Priffyrdd –** darllenwyd ymateb Cyngor Gwynedd ynglyn a'r tocio gwrych ger Tainewyddion a'r cwynion am y junction T lle roedd yr A493 o Bennal yn cyfarfod y ffordd newydd dros y bont ar yr A487. Roedd siom am y sefyllfa, gan fod damweiniau wedi bod yno yn barod. Dywedodd Cyng Dewi Owen y byddai yn trafod hyn ymhellach gyda'r Cyngor.
   b) **Mynwent yr Eglwys** – nid oedd unrhyw ddiweddariad, ers y cyfarfod diwethaf. Byddai diwrnod gwaith yn cael ei drefnu yno yn fuan.
   **c) Carafan static Cwm Sylwi,** - darllenwyd ymateb diweddaraf Jane Jones, Uwch Swyddog Cydymffurfiaeth. Byddai'r Clerc yn gofyn am ddiweddariad erbyn y cyfarfod nesaf.
   d) **Difibrillators** – adroddodd y Clerc y diweddaraf, a bod anfoneb i law gan Defib Store am gyfanswm o £1,603.44 am difibrillator newydd ger y toiledau. Hefyd amcangyfrif cost o osod postyn gyda chyflenwad trydan gan Peter Roberts o Gyngor Gwynedd am £500.
   **Penderfynwyd ei osod yn safle presennol ger y toiledau, gan ddefnyddio trydanwr ein hunian, ac nad oedd angen gwasanaeth Peter Roberts**. Gofynnwyd ir Clerc drefnu cael y difib newydd wedi ei ddanfon i Esgairweddan.

e) **Sedd wag ar y Cyngor** – ers y cyfarfod diwethaf, roedd hysbyseb wedi ei pharatoi a'I rhoi ar y wefan ac ar ddau hybysfwrdd yn gwahodd diddordeb. Ni chafwyd unrhyw gyswllt pellach. Penderfynwyd, ar gynnig Cyng James Brunton a'I eilio gan Cyng William Rees I gyfethol Sion Evans, Marchlyn fel Cynghorydd I Pennal. Byddai'r Clerc yn gwneud y trefniadau.

f) **Torri gwair** – roedd y Clerc wedi cysylltu gyda Aled Evans oedd yn gwneud y gwaith yn y fynwent, ac hefyd roedd cadrnhad I law gan Clive Jones o Gyngor Gwynedd oedd yn gwneud y gwaith ar gomin y Marian a cae chwarae.

g) **Gwaith ar y toiledau** – roedd y gwaith wedi ei gwbwlhau, ond nodwyd fod ffram toiled y merched angen sylw.

h) Asedau y Cyngor a setliad y cais yswiriant – cadarnhawyd y rhestr asedau a nodwyd fod mainc newydd gan Second Life plastics wedi ei danfon I Esgairweddan, gyda'r gost o £636.00. Roedd wedi ei gosod a'I rhoi yn ddiogel yn yr un safle. Roedd y cais yswiriant wedi ei gwbwlhau,ac roedd £434 I law gan gwmni Zurich (wedi ei dalu yn llawn ar ol tynnu yr 'excess'.

5. **Ethol Swyddogion 2024-25.**

a) **Cadeirydd** – ar gynnig Cyng Meirion Roberts a'I eilio gan Cyng Ken Griffiths, cytunwyd yn unfrydol ar enw Cyng Rhys Parry yn Gadeirydd am 2024-25.

b) **Is- Gadeirydd** - ar gynnig Cyng William Rees a'I eilio gan Cyng Aled Rees, cytunwyd yn unfrydol ar enw Cyng James Brunton yn Is- gadeirydd am 2024-25.

**6. Telerau a Chostau y Clerc 2024-25**

Rhoddwyd cyfle i'r Cynghorwyr gael trafodaeth eu hunain yn y cyswllt yma, a gadawodd y Clerc yr ystafell.. Cadarnhawyd cadw y telerau yr un fath ar gyfer 2024-25.

7. **Cadarnhau dyddiadau gweddill cyfarfodydd Cyngor Pennal ar gyfer 2024/25.**

Cadarnhawyd y dyddiadau canlynol; 5/07/24, 30/08/24, 25/10/24, 13/12/24, 24/01/25, 7/03/25.

Byddai'r Clerc yn cadarnhau ar wefan y Cyngor a Chanolfan Pennal.

8. **Dosbarthwyd ffurflenni cofrestr buddiannau I'w cwbwlhau gan Gynghorwyr, a derbyniwyd y cyfan I law**

Ar gynnig Cyng Aled Rees a'I eilio gan Cyng James Brunton, a gyda chytundeb pawb, mabwysiadwyd y canlynol (a oedd ar y wefan neu wedi eu dosbarthu ymlaenllaw);

**Cod ymddygiad** – (dosbarthwyd gopiau caled er gwybodaeth pawb)

**Rheoliadau ariannol a rheoliadau sefydlog**

**Asesiad risg y mynwentydd a materion cyffredinol ac ariannol y Cyngor** (a oedd wedi eu dosbarthu ymlaenllaw I'r Cynghorwyr)

**Cofrestr asedau** – cadarnhawyd y ffigwr o £54,000 (fel y cytunwyd yng nghyfarfod 8.03.24 o'r Cyngor)

Hefyd mabwysiadwyd y polisiau eraill – **pryderon a chwynion, cyfle cyfartal, amgylcheddol, bioamrywiaeth, diogelu data a rhyddid gwybodaeth**.

9. **Cynrychiolaeth y Cyngor Cymuned ar bwyllgorau / sefydliadau allanol.**

Cadarnhawyd y canlynol;

Y Ganolfan – Cyng Sion Evans

Menter y Glan – Cyng Meirion Roberts, James Brunton, Aled Rees, a Rhys Parry

Partneriaeth Pennal – Cyng James Brunton a Rhys Parry

10**. Materion Cynllunio**

Nid oedd unrhyw geisiadau i law.

11.**Materion Cyllid**

a) **Cyflwynwyd cyfrifon 2023-24** yn swyddogol I'r Cynghorwyr. Roeddent wedi eu paratoi a'u danfon i'r archwilydd mewnol, a bellach wedi eu dychwelyd. Yr unig ymholiad oedd fod angen adroddiad Blynyddol y Cadeirydd. Cadarnhwyd fod y cyfan yn gyflawn I'w cyflwyno I'r archwilydd allanol maes o law, ac roedd yr hysbyseb gyhoeddus wedi ei baratoi. Cadarnhwyd hefyd fod y cais am ad-daliad y VAT wedi ei wneud.

b) **Nodwyd gohebiaeth ac anfoneb y cwmni yswiriant Zurich** , am gyfanswm o £485.15 a chadarnhawyd manylion y gorchudd yswiriant ar gyfer 2024-25. (Roedd y cyfan wedi ei ddanfon allan ymlaenllaw I'r Cynghorwyr)

   Ar gynnig Cyng Meirion Roberts a'I eilio gan Cyng William Rees, cytunwyd I'w dalu.

c) Nodi derbyn **rhan gyntaf y praesept** am 2024-25, sef £9000. Nodwyd balansau y cyfrifon, (17.05.24), sef Cyfri Cyfredol £13,516.72, Cyfri Cadw £2640.89. Hefyd, nododd y Clerc ei fod wedi llwyddo i gael cyfrifon banc y Cyngor ar-lein. Cyfeirwyd hefyd at gyllideb 2024-25 a oedd wrth law. Atgoffwyd pawb o'r penawdau, a dosbarthwyd gopiau

d) Cytunwyd I dalu aelodaeth **Un Llais Cymru am 2024-25 -** £100, ar gynnig Cyng Meirion Roberts a'I eilio gan Cyng Aled Rees

e) Cytunwyd I dalu **anfoneb HG Web Designs** am £300 am gynnal a chadw y wefan, ar gynnig Cyng James Brunton a'I eilio gan Cyng Ken Griffiths

f) Roedd cais am arian I law gan **Clwb Rygbi Machynlleth**, a phenderfynwyd, ar gynnig Cyng Willam Rees a'I eilio gan Cyng Ken Griffiths I gyfrannu £200.

**12. Gohebiaeth**

a) Roedd e- bost gan Cyngor Tref Nefyn ynglyn a'u pryder am wariant Cyngor Gwynedd ar geir trydan, ynghyd ag ateb Dyfrig Siencyn. Byddai y Clerc yn ei ddosbarthu I bawb.

b) Sesiynau Hyfforddiant Un Llais Cymru - byddai'r Clerc yn eu danfon i'r Cynghorwyr

c) Darllenwyd Ymgynghoraid y Parc Cenedlaethol ar Gyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer rheoli'r defnydd o dai preswyl, a thrafodwyd yn faith. Gwelwyd y dylid gadael hwn fel bod pob Cynghorydd yn ateb yn unigol. Byddai'r Clerc yn ei ddosbarthu

d) Darllenwyd e-bost gan y Parc Cenedlaethol ynglyn a lle gwag fel aelod enwebedig o'r Awdurdod.

13**.Unrhyw fater arall.**

a) Roedd nifer o dyllau (potholes) ar y briffordd drwy bentref Pennal, ac roedd angen tynnu sylw yr Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd.

b) Roedd angen atgyweirio rhannau o'r ffens oddiamgylch y fynwent newydd. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei drefnu yn fuan.

**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF; Nos Wener y 5ed o Orffennaf yn y Ganolfan am 7.30yh.**

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 9.45pm.